

## **Ysbyty Werndale**

## **Archwiliad Glanweithdra Dirybudd ar Hap**

**Dyddiad yr ymweliad 22 Chwefror 2012**

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu a Chyfleusterau  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Tŷ Bevan  
Parc Busnes Caerffili  
Heol y Fan  
CAERFFILI  
CF83 3ED**

Neu trwy'r canlynol

**Ffôn:** 029 20 928850  
**Ebost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 029 20 928877  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

# Cynnwys

	Rhif y Dudalen
1. Cyflwyniad .....	1
2. Canfyddiadau: Cryfderau, Meysydd i'w Gwella Ymhellach a Chamau y mae Angen eu Cymryd.....	3
2.1 Amgylchedd Cyffredinol Ysbyty Werndale.....	3
2.2 Adran y Theatr .....	3
Yr Amgylchedd .....	3
Trin a Gwaredu Dillad Gwely a Llieiniau, Gwastraff ac Eitemau Miniog .....	5
Cyfarpar a Storfeydd .....	6
2.3 Ardal y Ward .....	7
Yr Amgylchedd .....	7
Trin a Gwaredu Dillad Gwely a Llieiniau, Gwastraff ac Eitemau Miniog .....	8
Cyfarpar a Storfeydd.....	9
Gwybodaeth ac Arferion Gwaith y Staff.....	9
Pryderon Cyffredinol.....	10
3 Casgliad.....	11
4 Y Camau Nesaf.....	13



# 1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Mai 2006, mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y cyhoedd a chleifion ar draws Cymru, cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ei bwriad i gynnal archwiliadau dirybudd, ar hap, o lanweithdra mewn sefydliadau gofal iechyd ar draws Cymru. Cynhelir rhaglen o ymweliadau dirybudd bob blwyddyn.

1.2 Ystyrir gwybodaeth o sawl gwahanol ffynhonnell sy'n berthnasol i'r agenda hon, ac fe'i defnyddir i bennu cyfeiriad y rhaglen archwiliadau ar hap. Rydym yn parhau i adolygu'r rhaglen yn gyson gan ystyried unrhyw wybodaeth newydd a ddaw i'n sylw.

1.3 Fel rhan o'n Harchwiliad Glanweithdra Dirybudd ar Hap, rydym yn cynnal trafodaethau â'r staff clinigol ac yn arsylwi manau clinigol yn uniongyrchol. Mae'r rhestr wirio a ddefnyddir i lywio'r archwiliadau wedi ei seilio ar y pecyn archwilio Rheoli Haint a ddatblygwyd gan y Gymdeithas Atal Heintiau (IPS).

1.4 Mae mwy o wybodaeth am AGIC, ei hymweliadau ar hap a'r pecyn archwilio a ddefnyddir i'w gweld yn [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Ymweliad ag Ysbyty Werndale

1.5 Ysbyty annibynnol yw Ysbyty Werndale, ac fe'i cofrestrwyd am y tro cyntaf ym mis Medi 1991. Mae'r ysbyty wedi ei leoli ym mhentref Bancyfelin, tua chwe milltir o Gaerfyrddin. Mae'r Ysbyty wedi'i gofrestru i ddarparu wyth ar hugain (28) o welyau cleifion mewnol, cyfleusterau ar gyfer cleifion allanol, ystafell theatr, ac adrannau pelydr-x, patholeg a fferylliaeth.

1.6 Ar 22 Chwefror 2012, ymwelodd AGIC ag Ysbyty Annibynnol Werndale, gan gynnal archwiliadau glanweithdra ar hap o'r manau canlynol:

- Adran y Theatr.
- Ardal y Ward.

1.7 Nodir ein canfyddiadau yn adrannau canlynol yr adroddiad hwn. Rydym yn tynnu sylw at gryfderau, yn ogystal â meysydd y mae angen eu gwella ymhellach, ac yn argymhell camau gweithredu. Mae'n ofynnol i'r sefydliad baratoi cynllun gwella i fynd i'r afael â'r meysydd allweddol sy'n destun pryder, a'i gyflwyno i AGIC o fewn pythefnos i gyhoeddi'r adroddiad hwn.

## 2. Canfyddiadau: Cryfderau, Meysydd i'w Gwella Ymhellach a Chamau y mae Angen eu Cymryd

### 2.1 Amgylchedd Cyffredinol Ysbyty Werndale

Ystyriwyd bod safon glanweithdra amgylchedd cyffredinol yr ysbyty yn dderbyniol. Gwelwyd nad oedd annibendod nac eitemau amhriodol yn y coridorau cyhoeddus a'r llwybrau cerdded.

### 2.2 Adran y Theatr

#### Yr Amgylchedd

Ystyriwyd bod safon gyffredinol y glanweithdra yn **dda**, ond canfuwyd rhywfaint o lwch ar lefelau uchel yn yr ystafell theatr.



- Mae silffoedd newydd wedi eu gosod yn yr ystafell ddi-haint sy'n golygu y gellir glanhau yn fwy effeithiol.



- Yn yr ystafell amlbwrpas eitemau budron a'r ystafell storio ddi-haint, roedd eitemau wedi eu tynnu oddi ar y wal gan adael tyllau amlwg ar eu holau. Dylid llenwi'r rhain er mwyn gallu glanhau'r manau yn briodol.



- Ceir agorfa yn yr ystafell amlbwrpas eitemau budron a ddefnyddir i drosglwyddo hambyrddau budron y theatr. Fodd bynnag, mae'r rhain yn cael eu cludo dros yr offer glanhau a gedwir yn yr ystafell amlbwrpas eitemau budron. Mae hyn yn annerbyniol. Dylid symud yr offer domestig oddi yno gan y gallai'r arfer presennol achosi risg o halogiad.

Gwelwyd bod gwaith paent wedi ei ddifrodi ar y wal y tu ôl i'r sinc yn ystafell newid y menywod. Dylid gosod cefnfyrdau priodol er mwyn atal mwy o ddifrod.

Roedd silffoedd ar gael yn ystafell newid y menywod ar gyfer cadw gwisgoedd sgwrio theatr. Fodd bynnag, gwelwyd bod rhai o'r silffoedd wedi eu difrodi, a bod pren i'w weld mewn rhai manau. Dylid cael silffoedd eraill yn lle'r rhain gan na ellir glanhau pren yn effeithiol ac y gallai hynny achosi risg bosibl o halogiad.

Yn ystod ein hymweliad â'r theatr, sylwyd bod rhai o'r damperi pwysedd gollwng aer yn mynd yn sownd. Gallai hyn amharu ar gydbwysedd llif yr awyr iach yn y theatr sy'n bwysig o safbwynt atal heintiau. Argymhellir y dylid sefydlu proses fonitro yn



rhan o'r archwiliadau arferol, ac y dylai peiriannydd archwilio'r damperi er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn ac nad yw'r awyriad yn y theatr yn cael ei beryglu.

Gosodwyd cylched glân ar y peiriant anesthetig, ond roedd y pwynt sy'n cysylltu â'r claf wedi'i adael heb ei orchuddio, ac yn agored i'r amgylchedd. Gallai hyn beri i'r cylched gael ei halogi. Ar ôl gosod a phrofi'r cylched, argymhellir y dylid defnyddio'r pecyn y daeth y cylched ynddo'n wreiddiol, neu bag ailanadlu wedi'i ddiheintio, i amddiffyn y pwynt hwn rhag halogiad.

Roedd offer golchi a diheintio '*pasio trwodd*' wedi eu gosod yn briodol yn yr uned endosgopi. Fodd bynnag, mae'r staff wedi bod yn cael problemau gyda'r peiriant, ac oherwydd nad yw'n ddibynadwy, mae ail beiriant golchi a diheintio symudol wedi ei osod yng nghornel yr ystafell rhag ofn i'r prif beiriant beidio â gweithio. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd cynnal proses '*budr i lân*' mewn lle mor gyfyng. Yna, mae'r endosgopau sy'n cael eu glanhau yn y peiriant golchi a diheintio symudol yn gorfod cael eu symud trwy'r ystafell adfer i'r ystafell glanhau/storio. Mae angen rhoi blaenoriaeth i fynd i'r afael â'r mater hwn. Os yw'r broblem yn gysylltiedig â'r ffaith nad yw'r peiriant yn cael ei ddefnyddio digon, dylid ei osod ar fwy o gylchredau dyddiol pan nad yw'n cael ei ddefnyddio, neu dylid ystyried cael peiriant arall yn lle'r prif beiriant.

### **Trin a Gwaredu Dillad Gwely a Llieiniau, Gwastraff ac Eitemau Miniog**

Roedd yr holl ddillad gwely a llieiniau glân yn cael eu cadw'n briodol, a'r dillad gwely a'r llieiniau budron yn cael eu gwahanu mewn bagiau cod lliw addas a'u cadw'n briodol cyn eu gwaredu.



- Pan nad oeddent yn cael eu defnyddio, roedd y biniau gwastraff yn y man sgwrio yn cael eu cadw ar yr arwyneb gweithio. Ni ddylid cadw biniau gwastraff ar arwynebau gweithio, a dylid mynd â hwy oddi yno.

Roedd adran y theatr yn cydymffurfio â'r safonau cenedlaethol o ran trin a gwaredu eitemau miniog yn ddiogel.

### Cyfarpar a Storfeydd



- Roedd offer yn cael eu cadw yn yr ystafell theatr pan nad oeddent yn cael eu defnyddio. Dylid symud y rhain oddi yno a'u cadw mewn man priodol.



- Roedd cyflenwadau wedi'u di-heintio'n cael eu cadw gydag offer eraill yn ystafell storio'r theatr. Dylid sefydlu dull mwy priodol o storio eitemau er mwyn gwahanu'r cyflenwadau wedi'u di-heintio oddi wrth yr eitemau eraill.

Yn gyffredinol, gwelwyd bod yr offer yn adran y theatr yn lân. Roedd rhaglen lanhau ysgrifenedig wedi ei sefydlu ac yn cael ei gweithredu er mwyn sicrhau bod y staff yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am lanhau beth a pha bryd.

## 2.3 Ardal y Ward

### Yr Amgylchedd

Ystyriwyd bod safon gyffredinol y glanweithdra yn **dda**. Ar adeg ein hymweliad, roedd rhaglen adnewyddu wedi ei sefydlu i uwchraddio ystafelloedd y cleifion; bydd hyn yn cynnwys cyflwyno cyrtens tafladwy a llenni y gellir eu golchi. Bydd carpedi newydd hefyd yn cael eu gosod fel rhan o'r rhaglen adnewyddu.



- Dylai'r ysbyty ystyried gosod gorchudd llawr y gellir ei lanhau'n rhwydd yn lle'r carped, gan na ellir glanhau carpedi'n effeithiol.



- Roedd pwcedi glanhau yn cael eu cadw ar y llawr yn yr ystafell ddomestig, ac mae hyn yn annerbyniol. Dylid symud y pwcedi oddi ar y llawr a'u cadw'n briodol uwchben lefel y llawr.



- Gwelwyd bod silff wedi ei difrodi yn yr ystafell glinigol. Nid yw hyn yn gydnaws â glanhau effeithiol, a dylid cael un arall yn ei lle.



- Nid yw'r sinc golchi dwylo yn yr ystafell glinigol yn cydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd (HTM) 64 oherwydd bod gan y sinc blwg, sianel orlif, a thapiau anghywir. Dylai sinc golchi dwylo glinigol benodedig a phriodol fod ar gael i'r staff.

Archwiliwyd y comôd, a gwelwyd ei fod yn lân ac yn barod i'w ddefnyddio.

### **Trin a Gwaredu Dillad Gwely a Llieiniau, Gwastraff ac Eitemau Miniog**

Roedd yr holl ddillad gwely a llieiniau glân yn cael eu cadw'n briodol, a'r dillad gwely a'r llieiniau budron yn cael eu gwahanu mewn bagiau cod lliw addas a'u cadw'n briodol cyn eu gwaredu.

Roedd y ward yn trin a gwaredu gwastraff yn briodol.

Roedd y ward yn cydymffurfio â'r safonau cenedlaethol o ran trin a gwaredu eitemau miniog yn ddiogel.

## Cyfarpar a Storfeydd

Yn gyffredinol, canfuwyd bod yr offer ar y ward yn lân. Roedd rhaglen lanhau ysgrifenedig wedi ei sefydlu ac yn cael ei gweithredu er mwyn sicrhau bod y staff yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am lanhau beth a pha bryd.

Gwelwyd bod nifer o rwymynnau pwysedd gwaed ar y ward mewn cyflwr gwael, a dylid cael rhai eraill yn eu lle.



- Roedd cyflenwadau wedi'u diheintio'n cael eu cadw gyda gwaith papur ac offer yn yr ystafell storio glinigol. Dylid sefydlu dull mwy priodol o storio eitemau, er mwyn gwahanu'r cyflenwadau wedi'u diheintio oddi wrth yr eitemau eraill.

Roedd microdon ar gael ym mhantri'r gegin yn ardal y ward er mwyn i'r staff allu cynhesu bwyd ar gyfer cleifion. Fodd bynnag, nid yw'n bodloni'r safon briodol ar hyn o bryd, a dylid cael microdon ddigidol dur gloyw 1000w mwy priodol yn ei lle.

## Gwybodaeth ac Arferion Gwaith y Staff

Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar reoli heintiau. Mae'r ysbyty'n cau dros y Nadolig, a chynhelir sesiynau hyfforddiant gorfodol bryd hynny, gan gynnwys hyfforddiant rheoli heintiau.

Cynhelir archwiliadau hylendid dwylo ar y ward, a rhoddir gwybod i'r staff am y canlyniadau fel y gellir rhoi sylw mewn modd amserol i unrhyw broblemau a nodwyd.

Gwelwyd nad oedd gel / ewyn alcohol bob amser ar gael ar y pwynt gofal. Gellir ei gwneud yn haws cydymffurfio ag arferion hylendid dwylo trwy leoli cynhyrchion

rhwbio dwylo â sail alcohol iddynt yn briodol wrth ymyl mannau'r cleifion. Gellir gosod y cynhyrchion hyn wrth draed gwely'r claf neu ar ei gwpwrdd bach.

### **Pryderon Cyffredinol**

Gwelsom fod y staff domestig yn defnyddio'r twymwr dŵr poeth yn y gegin er mwyn llenwi pwcedi, a bod y dŵr budr yn cael ei waredu yn y mannau golchi llestri gan nad oedd sinc wedi'i neilltuo'n benodol ar eu cyfer. Mae'r arfer hwn yn annerbyniol, a dylai sinc benodol fod ar gael ar gyfer y staff domestig.

Roedd y bin yn yr ystafell pelydr-x yn un agored, ac roedd yn amhriodol ar gyfer man clinigol. Dylid ei symud oddi yno a chael bin sy'n briodol ar gyfer lleoliad gofal iechyd yn ei le. Dylai biniau o'r fath fod yn rhai a weithredir â'r droed, a dylent fod â chaead a chael eu labelu'n gywir o ran y math o wastraff sydd i'w roi ynddynt.

### 3. Casgliad

3.1 Canfuwyd bod safon gyffredinol y glanweithdra yn dda. Fodd bynnag, amlygwyd nifer o faterion yn y manau yr ymwelwyd â hwy, gan gynnwys:

- Offer domestig yn cael eu storio'n amhriodol yn yr ystafell amlbwrpas eitemau budron yn adran y theatr,
- Storio offer a chyflenwadau wedi'u diheintio mewn modd amhriodol,
- Y ffaith fod y staff domestig yn defnyddio'r twymwr dŵr poeth yn y gegin.





## 4. Y Camau Nesaf

4.1 Mae'n ofynnol i'r ysbyty baratoi cynllun gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r prif faterion a amlygwyd, a'i gyflwyno i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad. Dylai'r cynllun gweithredu nodi'n eglur pryd a sut y rhoddwyd sylw i'r materion a nodwyd gennym yn y ddwy ardal yr ymwelwyd â hwy.

4.2 Yna, bydd y cynllun gweithredu hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i fonitro yn rhan o broses fonitro reolaidd AGIC.

4.3 Hoffai Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ddiolch i Ysbyty Werndale, gan fod pob aelod o'r staff yn eithriadol o gymwynasgar trwy gydol yr arolygiad.